GORCHYMYN (AMRYW FFYRDD)
(TERFYNAU CYFLYMDER 30MYA) CYNGOR SIR DDINBYCH 2023

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 82, 83 ac 84 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd a phob pŵer arall sy'n ei alluogi, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y XXX diwrnod o YYY 2023 ac fe'i gelwir yn Orchymyn (Amryw Ffyrdd) (Terfynau Cyflymder 30mya) Cyngor Sir Ddinbych 2023.

2. Mae cynlluniau Gorchymyn (Amryw Ffyrdd) (Terfynau Cyflymder 30mya) Cyngor Sir Ddinbych 2023 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "y Cynlluniau" fel y'u rhestrir yn Atodlen 1 wedi eu hymgorffori yn y Gorchymyn hwn.

3. Mae "Mynegai'r Cynllun" yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw Gerbyd Modur yn gyflymach na 30mya ar y rhannau hynny o'r ffyrdd a nodir yn y Cynlluniau yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni fydd Darpariaethau Erthygl 4 yn berthnasol i unrhyw gerbyd ar unrhyw adeg y'i defnyddir ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans, y gwasanaeth tân neu ddibenion yr heddlu os byddai cydymffurfio â'r ddarpariaeth honno'n debygol o atal defnyddio cerbyd at y diben y'i defnyddir ar yr adeg dan sylw.

6. Os bydd unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth unrhyw Orchymyn a wnaed neu sydd â'r un grym â phe'i gwnaed dan y Ddeddf, ac sy'n bodoli pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, darpariaethau'r Gorchymyn hwn fydd drechaf.

7. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio pan mae'r cyd-destun yn gofyn fel arall, mae gan "cerbyd modur" yr un ystyr â'r hyn sydd yn Adran 136 o'r Ddeddf.

GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR DDINBYCH)
ar hyn)
ar y diwrnod o 2023)
yng ngŵydd:

Llofnodwr Awdurdodedig:

ATODLENNI

Atodlen 1 - Cynlluniau Gorchymyn (Amryw Ffyrdd) (Terfynau Cyflymder 30mya) Cyngor Sir Ddinbych 2023.

Cynlluniau Atodlen 1 i'w hatodi.

Atodlen 2 - Mynegai Cynllun Gorchymyn (Amryw Ffyrdd) (Terfynau Cyflymder 30mya) Cyngor Sir Ddinbych 2023.

Cyfeirnod Safle	Lleoliad	Rhif Y Map
1	A548 Coast Road, Prestatyn – i'r dwyrain o Nant Drive hyd Marine Road East	SL001A
2	B5381 Ffordd Glascoed, Llanelwy – Lôn Cwttir hyd fan i'r gorllewin o Ffordd William Morgan	SL001B
3	A525 Ffordd Dinbych, Rhuthun – Ffordd Gyswllt Glasdir hyd fan i'r dwyrain o Ffordd Gyswllt Gogledd Rhuthun	SL001C
4	B5105 Llanfwrog – i'r de tua Chlawddnewydd o'r gyffordd â'r ffordd i Alltegfa	SL001D
5	A525 Ffordd Rhuddlan, y Rhyl – i'r gogledd o Gylchfan Bryn Cwybr hyd fan i'r gogledd o Gylchfan y Ganolfan Siopa	SL001F

DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD

GORCHYMYN (AMRYW FFYRDD)

(TERFYNAU CYFLYMDER 30MYA) CYNGOR SIR DDINBYCH 2023

Gorchymyn (Amryw Ffyrdd) (Terfynau Cyflymder 30mya) Cyngor Sir Ddinbych 2023.

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo deddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd cyfyngedig o 30mya i 20mya er mwyn lleihau nifer a difrifoldeb y gwrthdrawiadau ac anafiadau, galluogi mwy o bobl i deithio'n llesol, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwella ansawdd bywydau pobl mewn cymunedau ledled Cymru.

Gwnaeth Gweinidogion Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022 ar 13 Gorffennaf 2022 ac fe ddaw i rym ar 17 Medi 2023. O'r dyddiad hwnnw ymlaen bydd gan bob ffordd gyfyngedig derfyn cyflymder 20mya oni bai bod yr awdurdod priffyrdd yn pennu terfyn cyflymder gwahanol drwy Orchymyn.

Gall Awdurdodau Priffyrdd, drwy benderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyflwyno eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn hwn drwy wneud Gorchmynion i gadw'r terfyn cyflymder presennol o 30mya.

Wedi adolygu ei rwydwaith priffyrdd yn drylwyr, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi nodi pump leoliadau lle gellir gwneud Gorchmynion i'w heithrio o'r terfyn cyflymder yn ddiogel, gan ymateb i anghenion ac ystyriaethau lleol ac er mwyn hwyluso llif y traffig drwy gadw'r terfynau cyflymder presennol o 30mya.

Ymgynghorwyd â Heddlu Gogledd Cymru'n ddiweddar yn ogystal â'r aelodau etholedig ar gyfer yr ardal dan sylw, a mynegwyd cefnogaeth i'r cynigion hyn.

Felly, ymddengys i'r Cyngor Sir fel Awdurdod sy'n gwneud Gorchmynion ei bod yn angenrheidiol ac yn fanteisiol i wneud y Gorchymyn eithrio uchod er budd defnyddwyr rhwydwaith priffyrdd Sir Ddinbych.

HYSBYSIAD O GYNIGION
GORCHYMYN (AMRYW FFYRDD)
(TERFYNAU CYFLYMDER 30MYA) CYNGOR SIR DDINBYCH 2023

HYSBYSIR DRWY HYN bod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 82, 83 ac 84 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a fydd â'r effaith a ganlyn:

a) Cyflwyno terfynau cyflymder 30mya ar amryw ffyrdd yn Sir Ddinbych fel y manylir yn eu cylch yn y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn, a fydd yn effeithio ar ardaloedd Prestatyn, Llanelwy, Rhuthun, Llanfwrog a'r Rhyl.
b) Diddymu gorchmynion presennol sy'n pennu terfynau cyflymder os ydynt yn gorgyffwrdd ag unrhyw agwedd ar y cynigion yn y Gorchymyn hwn fel y manylir yn eu cylch yn y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn.

Nodir manylion llawn y cynigion yn y Gorchymyn drafft ynghyd â'r cynlluniau a datganiad o'r rhesymau dros gynnig gwneud y Gorchymyn, a gellir eu gweld yn ystod oriau agor arferol yn y llyfrgelloedd cyhoeddus canlynol: Prestatyn, Llanelwy, Rhuthun, Corwen a'r Rhyl.
Gellir gweld y manylion hefyd ar wefan y Cyngor (countyconversation.denbighshire.gov.uk).

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynigion hyn at Adain Traffig Ffyrdd y Cyngor.

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â'r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych dan Borth Sgwrs y Sir (countyconversation.denbighshire.gov.uk) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi'r seiliau i'r gwrthwynebiad, at Cyfarwyddwr Corfforaethu Llywodraethu a Busnes, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 3 Awst 2023 fan bellaf. Dylid nodi y gallai unrhyw sylwadau y mae'r cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

Dyddiedig 12 Gorffennaf 2023

Gary Williams

Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a Swyddog Monitro. Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych.